# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2019**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4**
**3020U40-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4**

**HAF 2019**

## ADRAN A

**A1: Darllenwch y proffiliau isod a chwblhewch y tabl. [10]**

| | | |
|---|---|---|
| **Katya**  | **Hoffi – ysgol** | Celf, Cymraeg a drama |
| | **Ddim yn hoffi – ysgol** | Gwersi ymarfer corff a gwaith cartref |
| | **Hoff fwyd** | Byrger, sglodion, creision, wyau a ffa pob |
| | **Cas fwyd** | Ffrwythau, pys, brocoli a bresych |

| | | |
|---|---|---|
| **Patrick**  | **Hoffi – ysgol** | Gwersi ymarfer corff a mynd i'r clwb chwaraeon amser cinio |
| | **Ddim yn hoffi – ysgol** | Cerddoriaeth a hanes ond yn hoffi'r athro |
| | **Hoff fwyd** | Cig, bwyd iach a siocled weithiau |
| | **Cas fwyd** | Ffa pob, banana |

**(i) Ticiwch y bocs cywir. [4]**

| | **Katya** | **Patrick** |
|---|---|---|
| **Hoffi celf?** | ✓ | |
| **Hoffi'r athro hanes?** | | ✓ |
| **Ddim yn hoffi cerddoriaeth?** | | ✓ |
| **Ddim yn hoffi ymarfer corff?** | ✓ | |

**(ii) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch (*underline*) <u>un</u> ateb. [2]**

- Mae Katya yn hoffi bwyta bwyd iach.
- Mae Katya yn hoffi bwyta ffrwythau a llysiau.
- <u>Dydy Katya ddim yn hoffi bwyta llysiau gwyrdd.</u>



© WJEC CBAC Cyf.

**(iii)** **Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch (*underline*) <u>un</u> ateb.** **[2]**

- <u>Mae Patrick yn hoffi byw bywyd iach.</u>
- Dydy Patrick ddim yn hoffi bwyta cig.
- Dydy Patrick ddim yn hoffi siocled.

**(iv)** **Patrick ydy'r person mwyaf iach. Pam?** **[2]**

Un marc am reswm cywir **[Uchafswm o 2]**

**Patrick** yn hoffi ymarfer corff
**Patrick** yn mynd i glwb chwaraeon
**Patrick** yn hoffi bwyta bwyd iach/**Patrick** yn hoffi ffrwythau a llysiau
**Katya** ddim yn hoffi ymarfer corff
**Katya** ddim yn hoffi ffrwythau a llysiau
**Katya** yn hoffi byrger, sglodion, creision



© WJEC CBAC Cyf.

**A2:** **[9]**

**Darllenwch beth mae George North ac Elinor Barker yn dweud am fwyta'n iach.**

| **George North** | **Elinor Barker** |
|---|---|
|  Diwrnod iach heddiw. I ginio bwytais i reis efo cig gwyn a llawer o lysiau fel ffa pob – dw i angen y protein!<br><br>I swper es i i Nandos a bwytais i gyw iâr plaen efo salad. Yfais i smwddi iach hefyd achos mae'n bwysig iawn bwyta bwyd iach.<br><br>Penwythnos nesa – mynd i Nandos eto achos fy hoff fwyd ydy cyw iâr! | <br>I frecwast bore 'ma bwytais i dost gyda llawer o jam – sôn am flasus. I ginio es i i'r dafarn gyda fy mam. Ces i fyrger ac i bwdin, bwytais i gacen siocled – dw i'n dwlu ar gacennau siocled.<br><br>Yn fy marn i mae'n iawn bwyta bwyd melys weithiau.<br><br>Fory – beicio i losgi caloriau! |

(i) Atebwch y cwestiynau isod.

| | **George North** | **Elinor Barker** |
|---|---|---|
| **Bwyta i ginio?**<br>**?** | **Reis; Cig (gwyn); Cyw iâr; Llysiau; Ffa pob; Protein** [1] | **Byrger; Cacen siocled** [1] |
| **Barn ar fwyta'n iach?** | **Pwysig** [1] | **Iawn bwyta bwyd melys weithiau** [1] |



© WJEC CBAC Cyf.

**A3: Ysgrifennu** **3 + ✓ = [5]**



**Dyma Rhian, mae hi'n afiach. Mae hi eisiau gwella ei ffordd o fyw.**

**(i) Gofynwch gwestiwn iddi am ei deiet. [1]**

*Ask her a question about her diet.*

1 marc am gwestiwn cyfathrebol yn ymwneud â chadw'n iach a heini

e.e.

Wyt ti'n bwyta sglodion?
Pam wyt ti'n bwyta cacen?
Wyt ti'n cadw'n heini?
Dw i'n bwyta'n iach/bwyta sglodion – a ti?

---

**(ii) Soniwch am sut rydych chi'n cadw'n iach. [1 + ✓ = 1]**

*Discuss how you keep healthy.*

1 marc am frawddeg gyfathrebol

e.e.

Dw i'n chwarae hoci.
Dw i'n bwyta afal.

---

**(ii) Rhowch gyngor i Rhian ar sut i fod yn iach. [1 + ✓ = 1]**

*Give her advice on how to be healthy.*

1 marc am frawddeg gyfathrebol ble mae'n amlwg bod yr ymgeisydd yn gwneud ymdrech i roi cyngor i Rhian
**Rhaid cynnwys berf yn yr ateb**
e.e.
Dylet ti fwyta llysiau.
Rhaid i ti gadw'n heini.
Gallech chi fwyta mwy o fwyd iach.
Bwyta ______ (Gorchmynnol)

**Mynegiant**

1 marc am frawddeg gyfathrebol **[Uchafswm o 2]**



© WJEC CBAC Cyf.

**A4: Darllenwch y gerdd yn ofalus.** **[9]**

**Ffasiwn ddillad – Sandra Anne Morris**
**Dan Deimlad, Dan Chwerthin – Cerddi Lloerig**

Mae mam yn prynu dillad o Matalan i mi,
A finna bron â drysu, isio pethau JD.
Hen grysau-T sy'n hongian a jîns henffasiwn blêr,
Plîs ga'i fod yn trendi, ac edrych fel y sêr!

Ga'i dop Adidas newydd, a throwsus Puma, cŵl?
Bydd pawb yn edrych wedyn, pan fydda i'n chwarae pŵl.
Ga'i 'sgidiau Reebok llachar, a chap ffasiynol, du?
Y ffordd dwi'n edrych rŵan, adawa i byth mo'r tŷ!

Plîs mam, gawn ni fynd i siopa lawr i'r dre,
Neu gwell fyth, ga'i edrych be sydd ar y we?
Dwi'n addo peidio swnian, a pheidio bod yn hir,
Ac yn fy nillad newydd ga'i sws gan Siwan Fflur!

**Nodwch yn y grid y dillad mae'r bardd yn hoffi a ddim yn hoffi gwisgo.** **[4]**

| Hoffi gwisgo | Ddim yn hoffi |
|---|---|
| **Marc am unrhyw un o'r rhain -** Dillad JD; JD; Pethau JD; Top; Top Adidas; Adidas; Trowsus; Trowsus Puma; Esgidiau; Esgidiau Reebok; Reebock; Cap; Dillad Newydd;Puma **[1]** | **Marc am unrhyw un o'r rhain –** Dillad o Matalan; Matalan; Hen grysau-T; Crysau-T; Jîns (henffasiwn/blêr) **[1]** |

| **Ticiwch yr ateb cywir** **[3]** | | |
|---|---|---|
| Mae'r gerdd yn sôn am fynd ar wyliau. | Cywir | **Anghywir ✓** |
| Mae'r person yn hoffi gwisgo jîns henffasiwn. | Cywir | **Anghywir ✓** |
| Hoffai'r person fynd i siopa gyda'r fam? | **Cywir ✓** | Anghywir |

**Mae ffasiwn yn bwysig i'r bardd, ydych chi'n debyg i'r bardd?**

1 marc am ateb cyfathrebol – Ydw/Nac ydw ; Na; Wrth gwrs; Yn bendant; Yn sicr; Heb os; Dw i'n debyg/wahanol i'r person

***Dydyn ni ddim yn derbyn y canlynol: Ydy/ Nag ydy/ Oes/ Nag oes/ Ydyn/ Ie/ Tebyg/ (G)wahanol**

**Sut? Rhowch reswm (Rhaid dewis ffaith o'r gerdd)**

1 marc am ateb cyfathrebol

e.e.

Fel y bardd rydw i'n hoffi gwisgo Top Adidas.
Yn wahanol i'r bardd dydw i ddim yn hoffi gwisgo trowsus Puma.
Derbyn atebion heb Fel/Yn wahanol i.



© WJEC CBAC Cyf.

**A5: Ysgrifennu** **[10]**

**Mae'r gerdd yn sôn am ffasiwn a siopa. Ydy dilyn ffasiwn yn bwysig i chi?**

**i)** **Pa siopau ydych chi'n hoffi?** **[1]**
**ii)** **Gyda phwy ydych chi'n siopa?** **[1]**
**iii)** **Beth brynoch chi ddiwethaf?** **[1]**
**iv)** **Ydych chi'n hoffi siopa ar y we? Pam?** **[2]**

*The poem discusses fashion and shopping. Is following fashion important to you?*

*i)* *Which shops do you like?* *[1]*
*ii)* *With whom do you go shopping?* *[1]*
*iii)* *What was the last thing you bought?* *[1]*
*iv)* *Do you like shopping online? Why?* *[2]*

**[5 + ✓= 5] = [10]**

**Cynnwys**

✓ Pa siopau ydych chi'n hoffi? = 1 marc
✓ Gyda phwy ydych chi'n siopa? = 1 marc
✓ Beth brynoch chi ddiwethaf? = 1 marc
✓ Ydych chi'n hoffi siopa ar y we? = 1 marc am ateb Ydw/Nacydw, hoffi/ddim yn hoffi

1 marc am reswm cyfathrebol

**Mynegiant – Cofiwch nad oes modd gwybrwyo mwy o farciau am fynegiant na chynnwys.**

| | |
|---|---|
| **5 marc** | Disgrifiad diddorol yn cynnwys o leiaf **3** cystrawen wahanol, mynegi barn effeithiol a rhesymu hyderus. |
| **4 marc** | Disgrifiad da yn cynnwys o leiaf **3** cystrawen wahanol, mynegi barn effeithiol a rhesymu da. |
| **3 marc** | Disgrifiad syml yn cynnwys o leiaf **2** gystrawen wahanol, mynegi barn a rhesymu da. |
| **2 farc** | Ymgais i greu paragraff yn cynnwys o leiaf **2** gystrawen wahanol ac ymdrech i fynegi barn. |
| **1 marc** | Brawddegau sylfaenol, pytiog heb strwythur amlwg. |



© WJEC CBAC Cyf.

**A6: Ysgrifennu** **[15]**

**Mae llawer o bobl yn defnyddio technoleg i wneud llawer o bethau gwahanol heddiw. Ysgrifennwch nodyn yn trafod technoleg.**

**Rhaid i chi ysgrifennu am y canlynol:**

**i)** **Sut mae pobl ifanc yn defnyddio ffonau symudol.** **[2]**
**ii)** **Y problemau mae technoleg yn gallu achosi e.e y gost, pwysau cyfoedion.** **[3]**
**iii)** **Sut mae technoleg yn helpu yn y gweithle.** **[3]**

**[8 + ✓= 7] = [15]**

**Cynnwys** **[8]**

✓ Marc yr un am 2 ferf yn ymwneud â defnyddio ffonau symudol e.e tecstio, mynd ar y we, siarad, chwarae gemau, tynnu lluniau ayb **[uchafswm o 2]**
✓ Marc yr un am drafod problemau e.e costio llawer, pwysau gan ffrindiau i gael y ffôn diweddaraf, tynnu sylw wrth wneud gwaith cartref ayb **[uchafswm o 3]**
✓ Marc yr un am drafod technoleg yn y gweithle – helpu pobl siarad/gyfathrebu yn hawdd, chwilio am wybodaeth yn gyflym – arbed amser, technoleg yn rhatach na talu pobl – arbed arian i gwmnïau **[uchafswm o 3]**

**Mynegiant** **[7]**

| | |
|---|---|
| **6-7 marc** | • Defnyddio o leiaf 5 patrwm brawddegol / cwestiwn gwahanol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Sillafu ac atalnodi cywir. |
| **4-5 marc** | • Defnyddio o leiaf 3 phatrwm brawddegol / cwestiwn gwahanol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Sillafu ac atalnodi da ar y cyfan. |
| **2-3 marc** | • Defnyddio o leiaf 2 batrwm brawddegol / cwestiwn gwahanol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir.<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir. |
| **1 marc** | • Defnyddio o leiaf 1 patrwm brawddegol / cwestiwn gwahanol.<br>• Defnydd ansicr o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol.<br>• Peth ymdrech i sillafu ac atalnodi. |


© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**B7: Darllenwch beth mae’r bobl yma yn ei ddweud am y pwysau sydd ar bobl ifanc heddiw ac atebwch y cwestiynau.**

**Tahneen - 16 oed**



Mae gen i broblem! Mae fy ffrindiau yn dweud “Rhaid i ti brynu dillad ffasiynol!”, “Rhaid i ti wisgo colur drud!” Does gen i ddim llawer o arian a dw i ddim yn gallu fforddio dillad Jack Wills a Hollister. Mae bywyd yn anodd weithiau.

**Ben - 22 oed**

Ydy, mae ysmygu yn afiach ond dw i’n ysmygu bob dydd. Hoffwn i stopio achos mae’n ofnadwy a dw i ddim yn gallu rhedeg yn hir cyn colli fy ngwynt. Dw i’n gaeth i nicotîn a dw i ddim yn gallu stopio – dw i wedi trio! Mae fy ffrindiau yn meddwl bod ysmygu sigaréts a sigaréts electronig yn cŵl – dw i’n anghytuno! Hoffwn i siarad efo rhywun i gael cyngor ar sut i roi’r gorau iddi.



**Mrs Thorne - 56 oed**



Mae’n bwysig bod pobl ifanc yn gwneud yn dda yn yr ysgol er mwyn dysgu sgiliau newydd, cael lle mewn coleg neu i gael gwaith ar ôl gadael ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn fy ysgol i yn ddiog iawn! Rhaid i ddisgyblion weithio’n galed mewn gwersi ac wrth wneud gwaith cartref. Mae’n bwysig bod yn drefnus a pheidio gwastraffu gormod o amser efo ffrindiau yn gwneud pethau dibwynt fel mynd i glwb ieuienctid. Yn fy marn i, yn yr ysgol mae pobl ifanc yn dysgu sgiliau pwysig, dim wrth fynd i glwb neu wrth wneud gwaith rhan amser!

**Llinos - 17 oed**

Haf nesaf hoffwn i fynd ar wyliau i Sbaen gyda fy ffrindiau i ddathlu diwedd fy arholiadau Lefel A. Ond, mae fy rhieni eisiau i fi fynd i Disney World yn Florida ar wyliau teulu arbennig. Mae'n annheg achos rydw i'n ddigon hen i fynd ar wyliau efo pwy bynnag hoffwn i. Mae'r syniad o fynd ar wyliau efo fy chwaer fach yn hunllefus! Mae fy ffrindiau wedi talu £100 yn barod ond mae fy rhieni yn gwrthod rhoi arian i fi. Mae gen i waith rhan amser ond dydw i ddim yn ennill digon o arian i dalu am y gwyliau. Bydd gwyliau i Sbaen yn rhatach na gwyliau i Florida felly, beth ydy'r broblem?





© WJEC CBAC Cyf.

**[17]**

**(i)**

| **Ticiwch yr ateb cywir** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Beth ydy problem Tahneen?** | Gormod o waith ysgol | **Dim arian ✓** | Yfed alcohol | Cymryd cyffuriau |
| **Beth ydy problem Ben?** | **Ysmygu ✓** | Dim arian | Pwysau cyfoedion | Tensiwn yn y teulu |
| **Beth ydy problem Mrs Thorne?** | **Pobl ifanc yn ddiog yn yr ysgol ✓** | Dim digon o amser sbâr | Athrawon | Cyffuriau |
| **Beth ydy problem Llinos?** | Gwaith cartref | **Ddim eisiau mynd ar wyliau efo'r teulu ✓** | Ffraeo efo ffrindiau | Athrawon |

**(ii)** **Yn eich barn chi, pwy sydd gyda'r broblem fwyaf?**

1 marc am enwi unrhyw un o'r 4 person e.e. Tahneen, Ben, Mrs Thorne, Llinos

**(iii)** **Beth ydy'r problemau? (Rhaid cael 2 ffaith o'r darnau darllen)**

**2 farc yr un am 2 reswm o'r darnau [Uchafswm o 4 marc]**

| | |
|---|---|
| **Tahneen**<br>• Ffrindiau yn dweud rhaid prynu dillad ffasiynol<br>• Ffrindiau yn dweud rhaid gwisgo colur (drud)<br>• Dim llawer o arian<br>• Ddim yn gallu fforddio dillad Jack Wills/Hollister<br>• Bywyd yn anodd<br>• Pwysau cyfoedion | **Ben**<br>• Eisiau stopio ysmygu<br>• Ddim yn gallu rhedeg yn hir (heb golli ei wynt)<br>• Yn gaeth i nicotîn<br>• Ffrindiau yn meddwl bod ysmygu yn cŵl<br>• Ysmygu (yn afiach)<br>• Pwysau cyfoedion |
| **Mrs Thorne**<br>• Disgyblion diog yn ei ysgol<br>• Pobl ifanc yn gwastraffu amser (efo ffrindiau) | **Llinos**<br>• Rhieni eisiau i Llinos fynd i Florida<br>• Ddim eisiau mynd ar wyliau efo ei chwaer<br>• Rhieni yn gwrthod rhoi arian iddi hi<br>• Ddim yn ennill digon o arian/ddim yn gallu fforddio/dim llawer o arian |



© WJEC CBAC Cyf.

**(iv) Pa gyngor (*advice*) fyddwch chi'n ei roi i'r 4 person?**

| **Tahneen** | **Ben** |
|---|---|
| • Ffrindiau yn dweud rhaid prynu dillad ffasiynol<br>• Ffrindiau yn dweud rhaid gwisgo colur (drud)<br>• Dim llawer o arian/Mynd i'r Gwaith/Ennill arian<br>• Ddim yn gallu fforddio dillad Jack Wills/Hollister<br>• Bywyd yn anodd<br>• Pwysau cyfoedion | • Eisiau stopio ysmygu<br>• Ddim yn gallu rhedeg yn hir (heb golli ei wynt)<br>• Yn gaeth i nicotîn<br>• Ffrindiau yn meddwl bod ysmygu yn cŵl<br>• Ysmygu yn afiach<br>• Pwysau cyfoedion |
| **Mrs Thorne**<br>• Disgyblion diog yn ei ysgol<br>• Pobl ifanc yn gwastraffu amser (efo ffrindiau) | **Llinos**<br>• Rhieni eisiau i Llinos fynd i Florida<br>• Ddim eisiau mynd ar wyliau efo ei chwaer<br>• Rhieni yn gwrthod rhoi arian iddi hi<br>• Ddim yn ennill digon o arian/ddim yn gallu fforddio/dim llawer o arian |

Ysgrifennu brawddegau cyfathrebol yn cyfeirio at y pwyntiau yn y grid uchod

**2 farc am gyngor cyfathrebol 2 farc neu 0 – dim 1 marc**

e.e.

Tahneen – Paid poeni am arian [dylet ti ymlacio].

Ben – Rhaid i ti stopio ysmygu [achos mae'n achosi problemau iechyd].

Mrs Thorne – Rhaid i ti siarad gyda'r disgyblion diog [achos mae arholiadau yn bwysig].

Llinos – Dylet ti siarad efo dy rieni [i ddatrys y broblem].



© WJEC CBAC Cyf.

**B8: Ysgrifennu**

**Mae Mrs Thorne yn dweud "Yn yr ysgol mae pobl ifanc yn dysgu sgiliau pwysig, dim wrth fynd i glwb neu wrth wneud gwaith rhan-amser."**

**Ydych chi'n cytuno efo Mrs Thorne?**

1 marc am gytuno/anghytuno efo Mrs Thorne

e.e.

Dw i'n cytuno/anghytuno (rhaid cael Dw i'n)
Ydw/Nacydw
Yn bendant
Heb os
Yn sicr
Wrth gwrs

**Pam?**

2 farc yr un am ddau rheswm cyfathrebol sy'n cyd-fynd â'u hateb i'r cwestiwn uchod **[uchafswm o 4]**

e.e.

- Achos mae gwaith rhan-amser yn wastraff amser.
- Achos mae gwneud gwaith cartref yn bwysig.
- Achos gallech chi ddysgu sgiliau newydd wrth wneud gwaith rhan-amser
- Achos mae'n bwysig cael profiad gwaith.



© WJEC CBAC Cyf.

**Adran C** **[25]**

**C9: Ysgrifennwch yn Gymraeg ar <u>un</u> o'r canlynol (tua 150 o eiriau)**

*Write **in Welsh** on **one** of the following (about 150 words)*

**Naill ai,**
*Either,*

**Ysgrifennwch lythyr at eich Pennaeth yn sôn am ffyrdd i wella eich ysgol.**

*Write a letter to your Headmaster discussing ways to improve your school.*

| Gallech chi gynnwys: | *You could include:* |
| --- | --- |
| • **Pynciau'r ysgol** | *School subjects* |
| • **Gwisg ysgol** | *School uniform* |
| • **Rheolau ysgol** | *School rules* |
| • **Clybiau ar ôl ysgol** | *After school clubs* |
| • **Ysgolion iach** | *Healthy schools* |
| • **Ysgolion eco-gyfeillgar** | *Eco-friendly schools* |

**Neu,**
*Or,*

**Ysgrifennwch erthygl i wefan Croeso Cymru yn hyrwyddo gwyliau yng Nghymru.**

*Write an article for the Croeso Cymru website promoting holidays in Wales.*

| Gallwch chi gynnwys: | *You could include:* |
| --- | --- |
| • **Ardaloedd gwahanol yng Nghymru** | *Different areas in Wales* |
| • **Gweithgareddau i bobl ifanc** | *Activities for young people* |
| • **Atyniadau poblogaidd** | *Popular attractions* |
| • **Diwylliant Cymru** | *Welsh culture* |
| • **Yr iaith Gymraeg** | *The Welsh language* |
| • **Manteision gwyliau yng Nghymru** | *Advantages of holidaying in Wales* |



© WJEC CBAC Cyf.

**[25]**

| **CYNNWYS** | | **MYNEGIANT** | |
|---|---|---|---|
| **Band 5**<br><br>**10-12 Marc** | • **Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus**<br>• **Amrywiaeth eang o syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn**<br>• **Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol** | **Band 5**<br><br>**10-13 Marc** | • Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir<br>• Sillafu ac atalnodi cywir |
| **Band 4**<br><br>**7-9 marc** | • **Cynllunio amlwg a dilyniant priodol**<br>• **Peth amrywiaeth o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn**<br>• **Gwaith diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol** | **Band 4**<br><br>**7-9 marc** | • Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb<br>• Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan<br>• Sillafu ac atalnodi eithaf cywir |
| **Band 3**<br><br>**4-6 marc** | • **Ôl cynllunio a dilyniant gweddol naturiol**<br>• **Digonol o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan**<br>• **Gwaith gweddol ddiddorol sydd yn llwyddo i gadw ein diddordeb** | **Band 3**<br><br>**4-6 marc** | • Cyfathrebu'n weddol rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir |
| **Band 2**<br><br>**1-3 marc** | • **Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu yn synhwyrol**<br>• **Arwynebol iawn o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn sylfaenol iawn gan gynnig ambell reswm syml**<br>• **Gwaith gweddol ddiddorol** | **Band 2**<br><br>**1-3 marc** | • Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb. Peth cywirdeb o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn weddol gywir |
| **Band 1**<br>**0 marc** | **Ymateb amhriodol neu heb ymateb** | **Band 1**<br>**0 marc** | Mynegiant amhriodol neu heb ymateb |



© WJEC CBAC Cyf.